

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA674 - Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Cymru a Lloegr) (Diwygio) Rheoliadau 2016

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac, yn benodol, y ddarpariaeth sy'n sefydlu'r drosedd o fod ym meddiant neu reolaeth wy aderyn gwyllt (neu unrhyw ran o wy o'r fath). Yn fwy penodol, maent yn diwygio'r eithriad statudol i'r drosedd honno, fel na fydd person yn euog os gall ddangos fod yr wy (neu unrhyw ran ohono) yn ei feddiant neu ei reolaeth cyn daeth rhan l o Ddeddf 1981 i rym. Mae hyn yn adfer y sefyllfa gyfreithiol cyn cyflwyno gwelliannau yn 2004, pan gyfyngwyd, yn anfwriadol, ar yr eithriad.

Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Senedd y DU.

Mae paragraff 2(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn darparu ar gyfer dewis rhwng y weithdrefn gadarnhaol a negyddol wrth arfer y pŵer o dan adran 2(2) o'r Ddeddf honno.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y weithdrefn negyddol "is deemed the appropriate procedure because the subject-matter of the instrument is of relatively minor detail in the overall legislative scheme and is technical in nature. This instrument does not impose duties, burdens or create any criminal offences. Rather, it provides for a benefit by expanding the statutory exemptions under section 1(3) of the 1981 Act, and as such, is considered appropriate for the negative procedure."

Gweithdrefn

Y weithdrefn negyddol cyfansawdd

Craffu Technegol

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

Dywed y Memorandwm Esboniadol "As this instrument will be subject to both the National Assembly for Wales and UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonable practicable for this instrument to be made or laid bilingually. The instrument is not amending earlier bi-lingual legislation".



Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Bydd y Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn nau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Gan y bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn craffu ar y Rheoliadau, ni chredir ei bod yn rhesymol ymarferol i wneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

21 Ionawr 2016

